

AcademiWales



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



Academi Wales Adroddiad Blynyddol 2013-14

Cynnwys

- 3** Rhagarweiniad
- 4** Cyflwyniad
- 5** Cefndir yr Adroddiad hwn
- 6** Arweinyddiaeth a Datblygu Sefydliadol
- 13** Talent ac Olyniaeth
- 20** Datblygu Arweinyddiaeth y GIG
- 26** Gwelliant Parhaus a Newid
- 31** Datblygu Seiliedig ar Broffesiynau
- 33** Cyfathrebu, Llywodraethu a Chyllid
- 36** Data Cynrychiolwyr
- 37** Data Ymgysylltu

Rhagair



Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Academi Wales wedi cyflwyno amrywiaeth na welwyd mo'i thebyg o'r blaen o raglenni, gwasanaethau ac ymyriadau sy'n ychwanegu gwerth at sefydliadau'r sector cyhoeddus ledled Cymru.

Pwrpas a chymhelliant sylfaenol Academi Wales yw 'helpu pobl i dyfu drwy ddysgu', ac mae ein cyflawniadau eleni wedi golygu ein bod yn galluogi, yn grymuso ac yn newid unigolion, timau a sefydliadau o ganlyniad.

Gyda'r nod o feithrin gallu arweinyddiaeth a rheolaeth, rydym wedi cynllunio a chyflwyno casgliad o raglenni a digwyddiadau sydd wedi denu mwy na 7,500 o weision cyhoeddus ac wedi arwain at gyfanswm rhyfeddol o 11,511 o ddyddiau hyfforddi mewn un flwyddyn galendr. Mae tîm Academi Wales yn gweithio gydag ymrwymiad difflino er mwyn sicrhau bod pob rhaglen, cynnyrch, cyhoeddiad, gweddarllediad a neges trydar o'r safon uchaf a bob amser yn diwallu anghenion dysgu ein cynulleidfa yn y sector cyhoeddus.

Ymhlith uchafbwyntiau'r flwyddyn ddiwethaf mae cyflwyno tîm arweinyddiaeth y GIG yn rhan o Academi Wales, sy'n arwydd clir o ymddiriedaeth y sector cyhoeddus, yn enwedig y GIG, yn Academi Wales ac yn ansawdd y ddarpariaeth ddatblygu a gynigir.

Eleni, rydym wedi ymgysylltu'n benodol â'n cydweithwyr yn y trydydd sector ac wedi cyflwyno rhaglen o gefnogaeth benodol mewn

partneriaeth â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn Ne Ddwyrain Cymru, yn y Canolbarth a'r Gorllewin ac yng Ngogledd Cymru.

Mae ein rhaglen bwrsariaeth ryngwladol wedi cael ei hailwampio a'i hail-lansio eleni, gan dderbyn mwy na 70 cais mynegi diddordeb yn ystod yr wythnosau cyntaf. Mae ein gallu i ddatblygu cysylltiadau a chynnig mynediad i ysgolion busnes byd-enwog yn golygu bod Cymru ac arweinwyr y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru'n rhannu'r ffordd mwyaf modern, newydd ac arloesol o feddwl sy'n bodoli.

Rydym yn eithriadol falch ein bod wedi gallu ymgysylltu'n llawnach eleni â'n partneriaid ym Mhrifysgolion Cymru, gan ystyried gwaith ymchwil newydd a defnyddio'r perthnasoedd cadarn hyn i gefnogi Academi Wales wrth i ni symud i'r flwyddyn sydd o'n blaen.

Fel ymrwymiad allweddol yn y Rhaglen Lywodraethu, rydym wedi bod yn awyddus i sicrhau bod nid yn unig beth rydym yn ei wneud, ond sut rydym yn ei wneud, yn dangos gwerth cydweithredu, ac yn canolbwyntio ar gyflwyno ansawdd a sbarduno gwelliannau. Yr egwyddorion hyn sydd wrth galon popeth rydym yn ei wneud sy'n cyfrannu at lwyddiant parhaus Academi Wales.

Yn olaf, diolch i ddechrau i dîm Academi Wales am eich gwaith caled a'ch ymrwymiad ac, yn ail, i chi fel unigolion, sy'n ymddiried ynom ni i weithio gyda chi ac ar eich rhan ar ddatblygu arweinyddiaeth a rheolaeth ac, yn drydydd, i'r sector cyhoeddus ehangach am gefnogi a chymryd rhan ym mhopeth rydym yn ei wneud.

Cofion gorau

**Jo Carruthers, Director,
Academi Wales**

Rhagarweiniad

AcademiWales



Lansiwyd Academi Wales yn swyddogol ar fore dydd Mercher 26 Medi 2012 gan Carl Sargeant, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau bryd hynny.

Nod Academi Wales yw creu dyfodol i Gymru lle mae'r gwaith o arwain ein gwasanaethau cyhoeddus yn llawn gweledigaeth, yn gydweithredol, o safon byd ac yn llwyddiannus o ran creu gwelliannau ym mywydau'r bobl sy'n byw yng Nghymru. Mae Academi Wales yn darparu amgylchedd i arweinwyr gydweithio er mwyn datblygu mwy ar alluoedd meddwl strategol ac arwain systemau ac er mwyn canfod atebion hawdd eu haddasu i broblemau ledled y sector cyfan.

Mae gwaith ymchwil yn awgrymu y bydd rhaid i arweinwyr y dyfodol allu addasu a meddwl a chynllunio ar lefel systemig, a bod yn gryf yn bersonol. Bydd arweinwyr y dyfodol yn arwain newid cymhleth ar raddfa na welwyd mo'i thebyg o'r blaen. Bydd rhaid iddynt weithio mewn partneriaeth ar draws sectorau, gan greu a chynnal rhwydweithiau cadarn ac aeddfed o berthnasoedd a hefyd cynnal ffocws cynyddol ar welliant, cynhyrchiant,

diogelwch ac arloesedd.

Mae Academi Wales yn helpu i ffrwyno talent arweinwyr mewn ystod eang o feysydd a disgyblaethau proffesiynol, er mwyn sbarduno sefydliadau cyhoeddus i wella gwasanaethau a gostwng costau ar yr un pryd.

Mae gwaith Academi Wales yn cael ei arwain gan Fwrdd Cynghori sy'n cynnwys aelodau ein holl wasanaethau cyhoeddus ac sy'n cynnig cyngor ar flaenoriaethau sector. Mae'r Bwrdd Cynghori'n galluogi cyswllt â rhwydweithiau lleol a hefyd yn cynghori ar heriau a chyfleoedd arwain allweddol yng Nghymru. Mae'r ddwy elfen hon yn allweddol er mwyn helpu Academi Wales i hwyluso datblygiad sgiliau a galluoedd arwain blaenoriaeth, yn seiliedig ar egwyddorion o gydweithredu a phartneriaeth.

Mae aelodau Bwrdd Cynghori Academi Wales yn helpu i arwain y gweithgarwch ymchwil a datblygu a wneir drwy gyfrwng Academi Wales er mwyn sicrhau ffocws ar sganio gorwelion a syniadau ar gyfer y dyfodol sydd, yn eu tro, yn helpu i sicrhau defnydd effeithiol o adnoddau.

Cefndir yr Adroddiad

Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno crynodeb o weithgarwch a chyflawniad Academi Wales yn ystod blwyddyn ariannol 2013/14.

Mae rhagor o wybodaeth am yr holl raglenni a'r cynhyrchion ar gael ar wefan Academi Wales yn

www.academiwales.org.uk

Bydd y meysydd allweddol a gaiff sylw yn yr adroddiad hwn yn dod o dan y categorïau canlynol:

- ◆ Arweinyddiaeth a Datblygu Sefydliadol
- ◆ Talent ac Olyniaeth
- ◆ Datblygu Arweinyddiaeth y GIG yng Nghymru
- ◆ Gwelliant Parhaus a Newid
- ◆ Datblygu Seiliedig ar Broffesiynau
- ◆ Cyfathrebu, Llywodraethu a Chyllid
- ◆ Data Cynrychiolwyr
- ◆ Data Ymgysylltu

Cysylltu â ni

Yn Academi Wales, rydym yn awyddus bob amser i glywed gan ein partneriaid, ein rhanddeiliaid a'n cwsmeriaid. I gael cyngor, neu i drafod beth mae Academi Wales yn gallu ei gyflawni, cysylltwch:

academiwales@wales.gsi.gov.uk

neu ffoniwch **029 2082 6687**

neu drydar **@academiwales**

Arweinyddiaeth a Datblygu Sefydliadol

Pwrpas Strategol

Mae'r tîm Arweinyddiaeth a Datblygu Sefydliadol yn atebol am gynllunio a chyflwyno ystod o raglenni arweinyddiaeth, rheolaeth a datblygu sefydliadol ar gyfer y Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru. Gall y rhain gynnwys rhaglenni, gweithdai, dosbarthiadau meistr, ymyriadau penodol a phrosiectau.

Cynllunio a Chyflwyno Rhaglenni

Mae'r maes cyflawni a darparu hwn yn cynnwys pedair adran allweddol; rhaglen arfaethedig wedi'i threfnu, rhaglen ymatebol bwrpasol, cyfres o ddsbarthiadau meistr amserol a chyfraniadau cynhadledd. Mae'n cynnwys cynllunio, datblygu, cyflwyno a gwerthuso'r rhaglenni i gyd.

Mae'r '**Rhaglen Wedi'i Threfnu**' (ffigur 1) yn cynnwys cymysgedd a chyfuniad o raglenni sy'n eiddo i Academi Wales a rhaglenni sydd wedi'u comisiynu gan y sefydliad gan ddarparwyr allanol. Mae'r ddarpariaeth hon yn agored fel bod unrhyw unigolyn sy'n gweithio ym maes y gwasanaethau cyhoeddus yn gallu defnyddio rhaglen.

- ◆ Cynigir 12 rhaglen, yn uniongyrchol gan Academi Wales, mewn partneriaeth ac wedi'u comisiynu. Dyma'r rhaglenni: Defnyddio Seicoleg Gadarnhaol, Meithrin Perthnasoedd Effeithiol, Caledi Meddyliol, Cymhelliant, Rhaglen Hunanarchwilio, Ystafell Ddsbarth

Fyd-eang, Rhaglennu Niwro Ieithyddol, Rheoli Newid yn Llwyddiannus, 7 o Arferion Pobl Hynod Effeithiol a *Springboard*.


- ◆ Mynychwyd y rhaglenni wedi'u trefnu gan 1,109 o gynrychiolwyr yn ystod y cyfnod hwn.

Mae'r '**Rhaglen Bwrpasol**' yn cynnwys monitro ac ymateb i geisiadau gan unigolion a sefydliadau, yn aml er mwyn galluogi datblygu personol a sefydliadol. Mae hefyd yn cynnwys lle byddwn ni fel tîm yn gweithio efallai gyda sector neu sefydliad gwasanaeth cyhoeddus sy'n cael anawsterau neu'n wynebu lefelau uchel o newid. Mae'r cyflawni ar gyfer y cyfnod yn cynnwys y canlynol:

- ◆ 25 o raglenni/ymyriadau wedi'u cynnig, yn uniongyrchol gan Academi Wales ac wedi'u comisiynu
- ◆ 4,565 o gynrychiolwyr wedi mynychu ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2013 a Mawrth 2014. 131 o ymyriadau wedi'u cyflwyno.


Cyflwynwyd y rhaglenni pwrpasol i sefydliadau'r gwasanaeth cyhoeddus a'r trydydd sector, fel y dangosir yn ffigur 2.

Rhaglenni Wedi'u Trefnu yn ôl Sector



Ffigur 1

Rhaglenni Pwrpasol yn ôl Sector



Ffigur 2

Mae **'Cyfres y Dosbarthiadau Meistr'** yn cynnwys datgan themâu neu bynciau perthnasol sy'n ystyried anghenion ymarferwyr a beth sy'n newydd gan y gymuned ymchwil academaidd. Mae'r cyflawni eleni wedi cynnwys y canlynol:

- ◆ cyfres dosbarthiadau meistr chwarterol 1 – cyflwynwyd tair thema, Llywodraethu, Archwaeth Risg ac Arweinyddiaeth Systemau
- ◆ cyfres dosbarthiadau meistr chwarterol 2 – cynlluniwyd tair thema, Cyfarwyddwyr Anweithredol, Cynaliadwyedd, Gwleidyddiaeth Cymru

“Thought provoking and relevant topic area to consider, reflect and take forward”

Systems Thinking with Ian MacDonald, March 2014

Mae'r **'Cyfraniadau Cynhadledd'** yn cynnwys ystod o weithdai arweinyddiaeth a datblygu sefydliadol mewn cynadleddau cenedlaethol ac yn y DU. Dyma rai enghreifftiau:

- ◆ Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu – cyflwyno gweithdai ar reoli newid a chaledi meddyliol mewn digwyddiadau rhanbarthol yng Nghymru ac yng nghynhadledd genedlaethol y DU.

- ◆ Y Gymdeithas Rheoli Pobl mewn Gofal Iechyd - cyflwyno datblygiad personol ar galedi meddyliol a meithrin perthnasoedd effeithiol i ymarferwyr iechyd cenedlaethol Cymru.
- ◆ Cynhadledd Genedlaethol Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru – cyflwyno datblygiad personol ar seicoleg gadarnhaol gymhwysol a chaledi meddyliol.

Ymyriadau Datblygu Sefydliadol ac Arweinyddiaeth

Mae Academi Wales hefyd yn gweithio gyda sefydliadau i roi cyngor a chyfarwyddyd ac i gyflwyno rhaglenni sy'n cael effaith strategol a sefydliadol. Mae hyn yn cynnwys rôl ehangach y gwaith pwrpasol yr ydym yn ei wneud lle mae pecyn o ymyriadau neu raglenni'n cael ei gynllunio efallai sy'n ehangach na gofynion hyfforddi 'untro'. Mae'r gwaith hwn yn eang ei natur ac yn cynnwys gweithio gyda'r canlynol:

Cyngor Sir Fynwy

Crëwyd 'rhaglen les' ddeuddydd a'i chynllunio a'i chyflwyno, gan gynnig 100 o lefydd ar raglen a oedd yn cynnwys deallusrwydd emosiynol, seicoleg gadarnhaol gymhwysol, caledi meddyliol

ac ymwybyddiaeth ofalgar fel elfennau'n galluogi lles rheoli yn y gweithle.

Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru

Wedi cynghori'r uwch dîm rheoli ar ei gynllun newid sefydliadol er mwyn gwella gwasanaethau, gan gyflwyno'r rhaglen Rheoli Newid yn Llwyddiannus ar gyfer newid sefydliadol i fwy na 50 o staff.

"Very good overview of theory and practical skills. Also a good opportunity to network with other colleagues and share perspectives" *Managing Change Successfully, February 2014*

Wedi hyfforddi hyfforddwyr i sicrhau ehangu'r rhaglen yn gynaliadwy yn y tymor hir.

Partneriaeth Ddysgu Gorllewin Cymru

(sy'n cynnwys sawl asiantaeth, iechyd, tân, heddlu, awdurdodau lleol, y sector gwirfoddol)

Cefnogwyd gwaith Partneriaeth Ddysgu ac Arweinyddiaeth Gorllewin Cymru drwy gynllunio rhaglen gyflawni gyda mwy na 30 diwrnod o ymyriadau hyfforddi ar gyfer amrywiaeth eang o staff amlasiantaeth. Galluogwyd amgylchedd



dysgu cydweithredol gan roi sylw i bynciau datblygu personol ar gyfer arweinyddiaeth, fel hwyluso, rheoli newid yn llwyddiannus a meithrin perthnasoedd effeithiol. Hefyd, cynhwyswyd hyfforddi hyfforddwyr ar draws asiantaethau, i gefnogi ehangu cynaliadwy yn y tymor hir.

Cyfoeth Naturiol Cymru

Cynigiwyd cyngor a chefnogaeth gyda'r uno strategol ar dri sefydliad; Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru. Roedd y rhaglen yn cynnwys cyflwyno'r rhaglen Rheoli Newid yn Llwyddiannus, hyfforddi hyfforddwyr a mwy na 60 o staff.

NWSSP (Canolfan Gwasanaethau a Rennir y GIG, sefydliad newydd)

Cynigiwyd cyngor a chefnogaeth gyda datblygiad sefydliadol parhaus NWSSP,

gan ddefnyddio'r rhaglen Rheoli Newid yn Llwyddiannus i alluogi newid sefydliadol. Datgan yr adnoddau a'r technegau ar gyfer datblygiad y sefydliad. Mae'n cynnwys hyfforddi hyfforddwyr ar gyfer y sefydliad newydd er mwyn sicrhau datblygiad cynaliadwy yn y tymor hir.

Cyngor Sir Wrecsam

Darparwyd datblygiad personol cyffredinol ac ym maes arweinyddiaeth. Cyflwynwyd rhaglenni fel seicoleg gadarnhaol gymhwysol, ymwybyddiaeth ofalgar a meistrolaeth i'r uwch dîm rheoli ac yn ehangach. Cymeradwywyd ac arweiniwyd gan y Prif Weithredwr.

Partneriaethau'r Trydydd Sector

Mae Academi Wales wedi rhoi blaenoriaeth eleni i gefnogi ac ymgysylltu'n ehangach â'r trydydd sector, gan alluogi meithrin gallu arwain a rheoli yn y sector penodol hwn. Cyflwynodd Academi Wales, mewn partneriaeth â Ffrwd Waith y Trydydd Sector, gasgliad o raglenni a ddatblygwyd i roi cyfle i gynrychiolwyr o'r trydydd sector ymwneud â phrofiad dysgu rhyngweithiol ac ysgogol.

Dewiswyd y cyrsiau i ddarparu ystod o sgiliau y gellir eu trosglwyddo i'r gweithle ac i ddarparu technegau ymarferol i

gefnogi datblygiad. Mae hyn wedi cynnwys ystod o weithgareddau dros y flwyddyn ddiwethaf.

- ◆ Seicoleg Gadarnhaol Gymhwysol
- ◆ Meithrin Perthnasoedd Effeithiol
- ◆ Cryfder a Chaledi Meddyliol
- ◆ Ymwybyddiaeth Ofalgar
- ◆ Datblygu Deallusrwydd Emosiynol
- ◆ Gwelliant Effeithlon a Pharhaus

Cyflwynir y rhain gan Academi Wales a phartneriaid y sector cyhoeddus a'u hybu

*"Excellent standard by facilitator"
Mental Toughness, April 2013*

mewn partneriaeth â'r WCVA fel sesiynau sydd ar gael i'r rhai sy'n gweithio yn y trydydd sector ledled Cymru yn unig. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda phartneriaeth y trydydd sector i farchnata a rhoi cyhoeddusrwydd i'r rhaglen.

Chwarae Teg

Cefnogi cyflwyno agendâu arweinyddiaeth ar y cyd, gan gynnwys gwaith ar ein bwletin, cefnogi'r digwyddiad Merched mewn Bywyd Cyhoeddus ar gyfer y Llywodraeth ac

Atebion Academi. Mae hyn hefyd wedi cynnwys cyflwyniad uniongyrchol i staff y sefydliad hwn ar raglenni datblygu arweinyddiaeth personol.

Cyngor Ar Bopeth

Cefnogi cyflwyno agendâu arweinyddiaeth ar y cyd, gan gynnwys ehangu cylchrediad y bwletin, cefnogi Cynhadledd Staff Genedlaethol flynyddol CAB gyda stondin, a darparu gweithdai datblygu arweinyddiaeth.

Datblygiad y Trydydd Sector

Mae'n cynnwys defnyddio cysylltiadau sydd wedi'u gwneud a'u sicrhau yn y sector i hybu cyfleoedd eraill, fel Ysgol Haf Academi Wales, i sicrhau cynrychiolaeth y trydydd sector.

Ymchwil a Datblygu – Academaidd i Ymarferwr

Hefyd, mae Academi Wales wedi ehangu cyrhaeddiad ei weithgarwch mewn perthynas â gweithio gydag ac ochr yn ochr â Sefydliadau Academaidd, a darparu ar eu cyfer, gan esblygu ymchwil ysgrifenedig a chyflawniad ymarferwyr ym maes arweinyddiaeth a datblygu sefydliadol. Eleni dechreuwyd ar y gwaith datblygu hwn gyda bwriad i sefydlu rhagor o gyfleoedd yn y dyfodol. Mae'r gwaith hyd yma'n cynnwys y canlynol:

Partneriaethau Academaidd

Rhwydwaith Datblygu Sefydliadol Ewrop – aelodaeth o'r Rhwydwaith, sefydliad academaidd ac ymarferwyr ar y cyd.



Cynllunio gwaith partneriaeth am dair blynedd, nawdd i'r gwobrau blynyddol. Cyflwyno sesiwn olrhain rheoli newid yn eu cynhadledd gyntaf a sesiynau poster ar galedi meddyliol.

Aelodaeth o Grŵp Diddordeb Arbennig Ysgol Fusnes Lancaster ar gyfer Cynllunio a Datblygu Sefydliadol. Cynrychiolaeth Academi Wales mewn dyddiau datblygu chwarterol i drafod ymchwil a thueddiadau yn y dyfodol. Cyfraniad at Bapur Gwyn Ysgol Fusnes Lancaster - 'Learning & Development for the Future'.

Cyflwyno Academaidd

'Dyfodol Arweinyddiaeth', sesiwn datblygu a gyflwynwyd mewn partneriaeth â Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu ac Ysgol Fusnes Prifysgol Fetropolitan Abertawe.

'Rhaglen Arweinwyr Ifanc', ystod o sesiynau datblygu cryfder a chaledi meddyliol a gyflwynir ar gyfer y rhaglen Arweinwyr Ifanc ar gyfer Prifysgol De Cymru.

'Raglen Arweinwyr ifanc', efelychu arweinyddiaeth i brofi gwybodaeth, sgiliau a newid ymddygiadol y myfyrwyr polisi cyhoeddus ar gyfer Prifysgol De Cymru.

'Atebion Academi...' dau wedi'u cwblhau

yn y sector academaidd ac addysg, proffilio arweinyddiaeth yn y sector hwn.

'Rheoli Newid yn Llwyddiannus' wedi'i gyflwyno i staff academaidd a chyflwyno Prifysgol Bangor i gefnogi newid sefydliadol, rhagor o grwpiau wedi'u harchebu ar gyfer 2014-2015.

Cefnogaeth Academaidd

DGB– Doethuriaeth Gweinyddu Busnes, gyda'r gwaith gweithredol blaenorol ar y rhaglen wedi'i gwblhau yn awr, cyfleoedd ar gyfer cyhoeddi yw'r prif ffocws.

L4C - Arweinyddiaeth ar gyfer Cydweithredu, y gefnogaeth i'r rhaglen hon yn seiliedig ar farchnata yn unig er mwyn cynghori darpar fyfyrwyr ynghylch beth sydd ar gael.

Hau Hadau

Cwblhawyd adolygiad o'r holl gyhoeddiadau Hau Hadau a gwblhawyd ac wrth baratoi ar gyfer diweddaru hanner y deuddeg cyhoeddiad presennol.

Deg maes cyhoeddi wedi'u datgan ar gyfer y dyfodol ac amserlen yn ei lle ar gyfer datblygu'r cyhoeddiadau yn unol â'r gweithdai a'r meysydd rhaglen i'w cyflwyno ar gyfer 2014-2015.

Talent ac Olyniaeth



Pwrpas Strategol

Pwrpas strategol y tîm Talent ac Olyniaeth yw cefnogi datblygiad gweithgareddau rheoli talent sy'n cyd-fynd â diwylliant a chapasiti sefydliad. Meithrin yn yr uwch reolwyr a'r arweinwyr wybodaeth a dealltwriaeth drwy ystod eang o weithgareddau dysgu sy'n sicrhau bod gweithwyr talentog yn cyflawni eu potensial i'r eithaf yn y sefydliad ac yn ehangach ym maes gwasanaethau cyhoeddus.

Ysgol Haf

Roedd Academi Wales yn falch o gynnal 8fed Ysgol Haf (YH) flynyddol y Gwasanaeth Cyhoeddus yn ystod y flwyddyn hon. Mae'r YH yn rhaglen ddysgu breswyl sy'n dod â chymuned ddysgu o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru at ei gilydd. Cynhaliwyd YH 2013 ym Mhrifysgol

Cymru, Y Drindod Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan a'r thema oedd "Dod yn Arweinydd Eithriadol".

"Thank you for a great week. I had really high expectations after seeing the agenda. I wasn't disappointed and am leaving feeling very inspired."
Summer School 2013

Gan adeiladu ar lwyddiant y blynyddoedd a fu, roedd YH 2013 yn gyfle i 250 o gynrychiolwyr ddysgu ar draws ffiniau a diwylliannau, er mwyn deall ei gilydd yn well a gweld sut mae dod yn arweinwyr gwell yn yr 21ain ganrif. Roedd y cynrychiolwyr yn dod o 64 o sefydliadau'r gwasanaeth cyhoeddus o bob cwr o Gymru, gan gynnwys y GIG, awdurdodau lleol, yr heddlu, tân ac achub, y gwasanaeth sifil a'r trydydd sector. Roedd y rhaglen yn cynnwys 8

prif gyflwyniad gan siaradwyr, awduron ac academyddion byd-enwog; 15 gweithdy arbrofol, 25 o hwyluswyr yn cefnogi 18 grŵp a 4 hyfforddwr gweithredol.

Enwebwyd y cynrychiolwyr gan eu sefydliadau fel y bobl fwyaf priodol i fynychu'r digwyddiad ac i allu defnyddio'r hyn a ddysgwyd yn eu rôl bresennol yn eu sefydliad i wneud gwahaniaeth. Mae'r digwyddiad yn canolbwyntio ar ganlyniadau, gan ddarparu dysg i gynrychiolwyr a strwythur a oedd yn eu cefnogi i gynllunio ar gyfer dychwelyd i'r gwaith, gan droi eu dysgu'n gamau gweithredu diriaethol. Mae mwy na 1500 o bobl wedi mynychu ers yr Ysgol Haf 1af yn 2006.

Ysgol Aeaf y Gwasanaeth Cyhoeddus
Cynhaliwyd 3edd Ysgol Aeaf flynyddol

Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru rhwng 4 a 6 Chwefror 2014 yn Nant Gwrtheyrn, Gogledd Cymru.

Mae'r Ysgol Aeaf yn ddigwyddiad dysgu preswyl sydd wedi cael ei ddatblygu'n benodol ar gyfer arweinwyr ar lefel uchel o'r sector cyhoeddus a gwirfoddol yng Nghymru. Mae wedi'i chynllunio fel rhaglen 'estynedig' a thema Ysgol Aeaf 2014 oedd: 'Ymddiriedaeth - Sylfaen Llwyddiant'. Roedd pob diwrnod yn canolbwyntio ar agweddau penodol ar Ymddiriedaeth; Meithrin Diwylliant o Ymddiriedaeth, Ymarfer eich Arweinyddiaeth a Mynd y Tu Hwnt i Chi Eich Hun.

Roedd yn cynnwys prif sesiwn a gweithdai rhyngweithiol, ac ymhlith siaradwyr 2014 roedd: Adrian Furnham, Athro Seicoleg yng Ngholeg y Brifysgol



Llundain a Chymrawd gyda Chymdeithas Seicolegol Prydain, Fons Trompenaars, sylfaenydd a chyfarwyddwr Trompenaars Hampden-Turner (THT), cwmni rheoli rhyngddiwylliannol a Clive Punter, cyn Gyfarwyddwr Rheoli Global Marketing Solutions yn LinkedIn a sylfaenydd GeniusQ.

Roedd y 33 o bobl a oedd yn bresennol yn cynrychioli 30 o sefydliadau'r sectorau cyhoeddus a gwirfoddol, gan gynnwys; Cyfoeth Naturiol Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol ABM, Prifysgol Caerdydd, Cyngor Celfyddydau Cymru, Bwrdd Addysgu Iechyd Powys, Partneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, a hefyd cynrychiolydd o Wasanaeth Sifil Gogledd Iwerddon yn rhannu arferion da.

“Winter School provided some truly inspiring insights and the opportunity to gain the confidence to think about what I need to improve personally and professionally”

Dangosodd yr adborth ar ôl y digwyddiad bod 98% o'r cynrychiolwyr wedi cyflawni amcanion unigol.

Hyfforddiant

Mae Academi Wales yn arwain ar ddatblygu hyfforddiant proffesiynol mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru,




ac mae'r gweithgarwch hwn ar gael i gydweithwyr drwy gyfrwng Sianel Ddysgu Academi Wales (drwy safle chwilio'r hyfforddwyr **“Hyfforddiant Cymru”** yn www.learningwales.tv).

Mae'r hyfforddwyr yn darparu eu sgiliau am ddim er mwyn cael cyfle i rwydweithio a datblygu sgiliau DPP. Daw'r hyfforddwyr o amrywiaeth o sefydliadau'r gwasanaeth cyhoeddus ac maent yn ffurfio Rhaglen Hyfforddi Gydweithredol Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru (**“Y Rhaglen Gydweithredol”**), sydd â 75 o aelodau ac yn rhwydwaith traws sector gweithredol o hyfforddwyr. Mae'r hyfforddwyr i gyd yn ymrwmo i hyfforddi o leiaf un person o wasanaeth cyhoeddus Cymru ar unrhyw adeg, am ddim. Mae hyn yn rhyw 24 awr o hyfforddi i bob hyfforddwr bob blwyddyn. Mae'n rhaid i bob aelod o'r Rhaglen Gydweithredol fod â chymhwyster y Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth ar Lefel 5 neu 7.

Cynhaliodd Academi Wales 3edd cynhadledd hyfforddi flynyddol gwasanaeth cyhoeddus Cymru (ar gael hefyd i gydweithwyr dysgu a datblygu yng ngwasanaeth cyhoeddus Cymru). Roedd 150 o gynadleddwyr yn bresennol, gan ddyblu ffigurau'r llynedd. I gefnogi datblygu sgiliau, mynychodd 63 o bobl ddau ddiwyddiad datblygu (Gogledd a De Cymru). Mae Academi Wales wedi galluogi hyfforddi 34 o hyfforddwyr newydd, i gyfoethogi'r gymysgedd o hyfforddwyr gwasanaethau cyhoeddus a hefyd darparu cefnogaeth 1:1 i hyfforddwyr newydd, i'w helpu i ddatblygu eu sgiliau a'u hyder.

Rhaglen Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol

Mae'r Rhaglen Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol yn gyfle unigryw i gyfranogwyr dreulio wyth wythnos yn Affrica is-Sahara yn gweithio ar brosiectau datblygu i wella sgiliau arwain. Fel rhaglen arweinyddiaeth, mae'n cynnig profiad 'trochi' sy'n cynnwys gweithio gyda sefydliadau Affricanaidd, gan arwain ar brosiectau rheoli penodol. Mae'n gosod y cyfranogwyr mewn cyd-destun nad ydynt yn gyfforddus ag ef ac yn gwneud i unigolion weithio'n fwy creadigol a dyfeisgar, gan gynyddu lefelau hunanymwybyddiaeth a gwella cryfder personol.



Rhaglen Cymru o Blaid Affrica Llywodraeth Cymru sy'n cyllido'r Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol ac mae'n ffordd ymarferol o gefnogi Cymru wrth iddi gyfrannu at gyflawni Nodau Datblygu'r Mileniwm.

Sefydlwyd y rhaglen Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol yn 2007 ac mae wedi rhoi cyfle i fwy na 100 o gyfranogwyr fyw a gweithio mewn gwlad sy'n datblygu. Lanswyd cylch newydd o'r rhaglen ar gyfer 2013-16 a chanolbwyntiwyd ar ddwy wlad allweddol - Uganda a Lesotho. Mae Academi Wales wedi ymrwmo i gyflwyno 15 lle y flwyddyn yn y cylch hwn. Mae'r 15 lle ar gyfer 2013-14 wedi cael eu llenwi yn awr gan reolwyr ac arweinwyr o'r sectorau cyhoeddus a gwirfoddol yng Nghymru.

Eleni hefyd cyhoeddwyd gennym fod y Pontydd a'r Cysylltiadau at Gonsortiw Arweinyddiaeth (a ffurfiwyd ar y cyd gan sefydliadau sector gwirfoddol Cymru, Dolen Cymru a PONT) wedi'u penodi fel darparwr newydd y rhaglen Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol.

Rhaglen Bwrsariaeth Arweinyddiaeth

Fel rhan o Academi Wales, roedd Rhaglen Bwrsariaeth Arweinyddiaeth 2013/14 yn gyfle i wahodd rheolwyr ac arweinwyr o bob rhan o'r gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru i ddod yn rhan o siwrnai ddysgu eithriadol ym maes

"It was a privilege being part of such a diverse class that included people from across the world and from very different cultures, and engaging in discussion with people with very different work (and life) experiences. The programme purposely sets out to draw from the richness of the participants' experiences and to pool their accumulated knowledge."

Leadership Bursary at Harvard, 2013

arweinyddiaeth bersonol a phroffesiynol. Dewiswyd y casgliad o raglenni a oedd yn rhan o ddarpariaeth bwrsariaeth 2013/14 i gefnogi datblygiad rheolwyr ac arweinwyr - gan annog unigolion i feddwl y tu hwnt i'w gorwelion dysgu uniongyrchol ac edrych ar y potensial ar gyfer datblygiad personol a phroffesiynol. Gan adeiladu ar y blynyddoedd a fu, roedd y rhaglen yn cynnwys casgliad cynhwysfawr ac amrywiol o raglenni dysgu gweithredol mewn sefydliadau byd-enwog, gan gynnwys Ysgol Fusnes Ashridge, Y Ganolfan ar gyfer Arweiniad Creadigol - Brwsel, Ysgol Reolaeth Prifysgol Cranfield, Ysgol Lywodraethu John F Kennedy Harvard, Hemsley Fraser ac Ysgol Fusnes Said.

Roedd y rhaglenni wedi cael eu dewis yn benodol i helpu i roi sylw i rai o'r heriau a wynebir gan unigolion sy'n gyfrifol am

wella'r gwaith o gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus. Nod y fwrariaeth hon oedd datblygu arweinwyr eithriadol i sicrhau'r effeithlonrwydd gorau posib yn wyneb newid allanol a mewnol.

Ar gyfer 2013/14 yn unig, cynigiodd Academi Wales fwrariaeth o hyd at 100%. Gwahoddwyd unigolion i lenwi ffurflen gais ac os oeddent yn llwyddiannus yn y cam hwnnw, roeddent yn mynd ymlaen i Banel Datblygu i gael asesu eu cais yn erbyn meini prawf penodol. O blith yr 85 cais, dyfarnwyd 20 bwrsariaeth. Roedd y rhai a oedd yn llwyddiannus yn cyllido eu costau awyren/teithio a llety eu hunain, oni bai fod manylion y rhaglen yn nodi'n wahanol.

Ar ôl dychwelyd, mae'r cyfranogwyr wedi'u hymrwymo i ysgrifennu tysteb/adolygiad tudalen lawn ar y profiad dysgu, a gyhoeddir wedyn ar wefan Academi Wales.

Cynllun Graddedigion y GIG

Mae Cynllun Hyfforddiant Rheoli Graddedigion GIG Cymru yn gyfle unigryw i 10 o raddedigion wneud gwahaniaeth i'r GIG yng Nghymru.

Mae'r cynllun yn darparu rhaglen gyflym dwy flynedd sydd wedi'i chynllunio'n benodol i gyflawni'r gofynion strategol ar

gyfer gallu rheoli cadarn yn y GIG.

Mae'r rhaglen yn seiliedig ar waith ac yn canolbwyntio ar y gofynion i ymgymryd â swydd go iawn yn y GIG, gan feithrin sgiliau ym maes gallu rheoli, ymgysylltu â staff, craffter ariannol a chynyddu gallu i gyflawni newid a gwelliannau, yn ogystal â darparu cymhwyster proffesiynol ar Lefel Meistr i raddedigion. Mae lefel y cymhlethdod, pwysau ariannol na welwyd mo'i debyg o'r blaen, gwaith partneriaeth ar draws sectorau, mwy o ffocws ar welliant, cynhyrchiant a diogelwch - yn ogystal â disgwyliadau uwch cleifion a thechnoleg yn chwyldroi gwaith, yn galw am sgiliau arwain newydd.

Dechreuodd y broses recriwtio ar gyfer



grŵp 2014 ym mis Ionawr 2014 gyda chyfres o gamau asesu. Cafwyd 336 o geisiadau.


Mae'r broses hon yn sicrhau bod unigolion llwyddiannus yn gallu goresgyn yr heriau y byddant yn eu hwynebu dros ddwy flynedd y rhaglen wrth iddynt gymryd rhan mewn dysgu arbrofol, datblygiad personol, cyfresi dysgu gweithredol a chael cefnogaeth gan fentoriaid a hyfforddwy'r gweithredol ar y cyd ag ymgymryd â swydd go iawn yn

GIG Cymru.

Cyllidir blwyddyn gyntaf y rhaglen gan Lywodraeth Cymru a bydd y Byrddau a'r Ymddiriedolaethau Iechyd yn cyllido'r ail flwyddyn.

Mae disgwyl y bydd y cyfranogwyr llwyddiannus yn ffurfio grŵp o brif arweinwyr yn y dyfodol, i gyflwyno gwasanaethau cyson ragorol yn y gwasanaeth iechyd sydd â'i amgylchedd yn newid.

Manylion Sector y Cynrychiolwyr ar gyfer Talent ac Olyniaeth



Ffigur 3

Datblygu Arweinyddiaeth y GIG



Pwrpas Strategol

Mae rhaglen waith Datblygu Arweinyddiaeth y GIG yn cefnogi cyflwyno'r meysydd gweithgarwch allweddol sydd wedi'u datgan yng Nghynllun Busnes Academi Wales ac mae'n cyd-fynd ag agenda gweithlu a gwasanaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer GIG Cymru yn 2013/14.

Wedi datblygu amcanion allweddol i'w cyflawni gan Weithlu'r GIG a'r Is-adran Datblygu Sefydliadol yn Llywodraeth Cymru, trefnir gweithgareddau datblygu arweinyddiaeth 2013/14 ar gyfer GIG Cymru o dan y themâu canlynol:

1. Hyfforddiant Rheoli Graddedigion
2. Datblygu Arweinyddiaeth a Rheolaeth
3. Gwelliant a Newid Strategol
4. E-Arweinyddiaeth

1. Hyfforddiant Rheoli Graddedigion

Recriwtio a datblygu talent allanol ac oddi mewn i'r gwasanaeth ar gyfer y Rhaglen Datblygiad Uwch, sy'n cefnogi datblygiad ehangach arweinwyr y dyfodol ar gyfer GIG Cymru a'r Sector Cyhoeddus.

Pwrpas y Rhaglen Datblygiad Uwch yw datblygu arweinwyr yfory gyda sgiliau arweinyddiaeth a rheolaeth graidd. Yr heriau yw sicrhau bod gan yr arweinwyr sgiliau rheoli pobl ac arian cadarn, a hefyd gallu i weithio ar y cyd ar draws ffiniau proffesiynol a sefydliadol.

Dechreuodd y grŵp cyntaf ar y Rhaglen ym mis Tachwedd ac wedyn ail grŵp ym mis Medi 2012. Mae cynlluniau ar droed ar hyn o bryd i dderbyn y criw nesaf o raddedigion cyllid a rheolaeth gyffredinol ar gyfer y GIG, ym mis Medi 2014 (gweler Talent ac Olyniaeth).

2. Datblygu Arweinyddiaeth a Rheolaeth

2a. Arweinyddiaeth Feddygol a Chlinigol

Mae Tîm Arweinyddiaeth a Datblygu'r GIG yn cefnogi nifer o fentrau datblygu ar gyfer clinigwyr, i gefnogi eu datblygiad personol a phroffesiynol. Gweithio'n agos â'r Prif Swyddog Meddygol a'r Prif Swyddog Nyrso i gefnogi cynllunio a chyflwyno digwyddiadau allweddol drwy



*“Excellent day, really well designed.
absolutely exhausting but well worth it.”*
HPMA Wales Conference

gydol y flwyddyn, gan gynnwys Cynhadledd Arweinyddiaeth Glinigol Flynyddol.

Datblygu Nyrsys Ymgynghorol, Bydwagedd a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd

Mae cefnogaeth arweinyddiaeth wedi cael ei darparu drwy ddigwyddiadau datblygiad proffesiynol a phersonol sy'n galluogi i Nyrsys Ymgynghorol, Bydwagedd a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd wella eu gallu i arwain ac ymgymryd â'u swyddogaethau'n fwy effeithiol.

Mae uwch arweinwyr bydwreigiaeth a sisters wardiau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi elwa o sawl gweithdy datblygu a oedd yn gwella

eu galluoedd arwain mewn amgylchedd gofal iechyd sy'n newid yn gyson.

Gweithdy Cwmpasu Datblygiad Arweinyddiaeth Glinigol

Fis Rhagfyr 2013, hwylusodd Tîm y GIG yn Academi Wales, mewn partneriaeth â thîm y Prif Swyddog Meddygol, weithdy cenedlaethol i edrych ar rôl arweinyddiaeth glinigol ac i ddyfeisio strategaeth ar gyfer symud ymlaen. Gwahoddwyd cynrychiolwyr o sefydliadau niferus i gymryd rhan ac i dynnu sylw at y cyfleoedd datblygu arweinyddiaeth glinigol helaeth a gyflwynir yn lleol. Mae'n rhaid wrth weledigaeth a rennir ar gyfer “Cymru gyfan” er mwyn galluogi cydweithredu, hybu newid diwylliannol a denu talent arweinyddiaeth newydd o weithlu presennol y GIG. Roedd y cyfle i weithio gyda sefydliadau eraill y sector preifat, a dysgu oddi wrthynt, o'r tu mewn a'r tu allan i'r maes gofal iechyd, yn rhan bwysig o'r broses.



Rhaglen Arweinyddiaeth Feddygol

Lansiwyd y rhaglen 12 mis hon ym mis Mawrth 2013 a'i nod yw cefnogi Uwch Arweinwyr Meddygol o bob rhan o'r GIG yng Nghymru a gwella gallu unigolion i greu gwelliannau i wasanaethau a datblygu medrusrwydd, ymddygiad a sgiliau arweinyddiaeth.

Cyflwynwyd gan ddefnyddio dull cyfun o weithdai, dysgu drwy weithredu a llwybrau e-ddysgu, gan gadw at nifer o themâu allweddol:

- ◆ Deall y cyd-destun strategol
- ◆ Arwain gwelliant, timau, ymgysylltu ac ar draws ffiniau sefydliadol
- ◆ Gofal â'i ffocws ar yr unigolyn – ansawdd a diogelwch
- ◆ Arweinyddiaeth arloesol

Mae'r gwerthusiad o'r rhaglen wedi bod yn eithriadol gadarnhaol gydag ail grŵp cenedlaethol wedi dechrau ym mis Hydref 2013.



Mae Sefydliad Dysgu yn y Gwaith Cymru, Prifysgol Cymru, Y Drindod Dewi Sant, wedi cael y contract i achredu'r rhaglen Arweinyddiaeth Feddygol. Bydd y cyfranogwyr yn cael Tystysgrif Ôl-raddedig Meistr (Arweinyddiaeth Glinigol) ar Lefel 7.

2b. Arweinyddiaeth a Datblygiad Aml-broffesiynol

Talent ac Olyniaeth ar gyfer Prif Weithredwyr a Swyddogion Gweithredol

I gefnogi'r gwaith o gynllunio talent ac olyniaeth uwch arweinwyr GIG Cymru. Yn ystod 2014/15, bydd Academi Wales yn datblygu ymyriad i gefnogi anghenion datblygu unigolion yng nghronfa talent GIG Cymru i gyflawni swyddogaethau arweinyddiaeth yn y dyfodol ledled y GIG yng Nghymru. Mae'r gweithgarwch hwn yn adlewyrchu'r meysydd datblygu sydd wedi'u datgan yn y papur 'Rheoli Talent a


"The knowledge and insight will be vital in enabling me to identify what I can do differently in order to improve the effectiveness of the team"
Clinical Leadership Learning Event

Chynllunio Olyniaeth’.

Datblygu Byrddau

Roedd amrywiaeth o ymyriadau ar gael i gefnogi datblygiad aelodau unigol a byrddau cyfan, gan gynnwys Dau ar y Brig, Cyfres Ddatblygu a Seminarau Arbenigol.

Lansiwyd Canllaw Llywodraethu Da i Fyrddau Iechyd GIG Cymru yng Nghynhadledd Confederasiwn GIG Cymru fis Ionawr 2014, gan ddarparu eglurder am swyddogaethau ac atebolrwydd, perfformiad a datblygiad, llywodraethu, risg a strwythur a siâp gofal



iechyd a chymdeithasol yn y dyfodol yng nghyd-destun yr agenda ehangach ar gyfer diwygio'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Profiad o Uwch Arweinyddiaeth

Mae Profiad o Uwch Arweinyddiaeth yn ymyriad aml-broffesiynol dwys. Y pwrpas yw rhoi profiad arweinyddiaeth deinamig i arweinwyr sydd â photensial uchel i arwain drwy ansicrwydd, twf a newid yn eu sefydliadau. Mae'r profiad yn galluogi i unigolion edrych eto ar eu tybiaethau



a'u dealltwriaeth eu hunain a'u perffeithio, er mwyn gwella eu harferion arwain. Mae'r ymyriad yn cyfuno diagnosteg ag adborth a thrafodaeth ar ddatblygiad personol, gan gynnig cefnogaeth a her mewn sesiwn hyfforddi cynhwysfawr i ddyfnhau'r adlewyrchu personol a throsglwyddo'r dysgu.

“Extremely helpful, the resources are fantastic and the process and design of the day was extremely conducive .”
Senior Leadership Experience

Datblygu Rheolaeth Ganol

Mae fframwaith yn cael ei gynhyrchu ar y cyd â sefydliadau sydd â rôl allweddol i'w chwarae mewn creu cysondeb yn seiliedig ar ddatblygu rheolaeth ganol GIG Cymru. Mae'n integreiddio'r llwybr dysgu a ddatblygwyd gan Academi Wales â strategaethau a rhaglenni lleol sy'n cynnwys Fframwaith Cymhwysedd Craidd GIG Cymru ar gyfer Rheolwyr a Goruchwylwyr - mae llawer o waith wedi cael ei wneud yn 2013/14 i gefnogi'r agenda hon. Bydd yn cael ei datblygu a'i gweithredu ymhellach yn ystod 2014/15.



Cefnogaeth i Ddarpar Arweinwyr

I helpu unigolion i ddatblygu'r sgiliau, y wybodaeth a'r ymddygiad angenrheidiol wrth iddynt geisio cyflawni eu swyddogaethau arwain gyda chefnogaeth yr adnoddau, y modelau a'r ymyriadau canlynol:

- ◆ Dysgu Drwy Weithredu
- ◆ Datblygiad Personol a Chefnogaeth Alumni
- ◆ Rheoli Gyrfa

- ◆ Hyfforddiant/Mentora

2c. Ymyriadau Datblygu Pwrpasol

Grŵp Arweinwyr Clinigol y Strategaeth Iechyd Meddwl

Nod yr ymyriad datblygu oedd darparu cefnogaeth i aelodau gyda chyflwyno canlyniadau effeithlon ac effeithiol mewn perthynas â'u swyddogaethau unigol ar lefel genedlaethol a lleol.

Datblygwyd rhaglen gan ddefnyddio diagnosteg a dadansoddiad o anghenion hyfforddi gyda chefnogaeth mynediad i adnoddau dysgu ar-lein.

Bwrdd Iechyd Prifysgol ABM

Ar y cyd â Gweithlu a thîm Datblygu Sefydliadol PABM, cefnogodd Academi Wales raglen i ddatblygu uwch dîm y Prif Swyddog Gweithredol.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Gweithio mewn partneriaeth i gefnogi penodi a datblygu Cyfarwyddwyr newydd y Bwrdd Clinigol yn dilyn ailstrwythuro'r sefydliad yn ddiweddar.

Hefyd, hwylusodd tîm arweinyddiaeth y GIG gefnogaeth i Bwyllgor Cynghori Therapïau Cymru, Academi'r Colegau Brenhinol a Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Fferyllwyr Cymru.

3. Gwelliant a Newid Strategol E-Arweinyddiaeth

Mae Academi Wales yn parhau i gefnogi'r defnydd o ddysgu ar lefel uwch gan ddefnyddio technoleg i sicrhau'r defnydd gorau posib o adnoddau datblygu staff i greu gallu a chapasiti priodol ymhlith ein gweithlu drwy gyfrwng Sianel Ddysgu Academi Wales www.learningwales.tv ac amgylcheddau dysgu rhithiol Learning@NHSWales.

Mae'r rhain yn cynnig safonau dysgu cyson, tegwch a mynediad ledled GIG Cymru, a gwell gwerth am arian. Mae'r ddwy fenter genedlaethol yn cefnogi sefydliadau lleol i gyflwyno'r agenda sgiliau.

Gweithgareddau Datblygu Arweinyddiaeth Ehangach

Mae Tîm Datblygu Arweinyddiaeth GIG Cymru yn cyfrannu at bortffolio gwaith ehangach Academi Wales, gan gynnwys y canlynol:

Cod Ymddygiad Adolygedig ar gyfer Rheolwyr y GIG

Fel ymateb i adroddiad Francis, gwahoddwyd Academi Wales i gyfrannu at ddatblygu Cod Ymddygiad wedi'i ddiweddarau ar gyfer Rheolwyr y GIG yng Nghymru. Gwnaed hyn ar y cyd â datblygu Fframwaith Cymhwysedd Craidd

y GIG ar gyfer Rheolwyr a Goruchwylwyr, i gydnabod nad oedd unrhyw ddiffiniad penodol o ymddygiad, sgiliau a gwybodaeth yn ofynnol i reolwyr a goruchwylwyr weithio'n effeithiol yn GIG Cymru.

Cyflwyno Gofal Diogel, Gofal Tosturiol

Dysgu i Gymru oddi wrth Ymchwiliad Cyhoeddus Canol Swydd Stafford Grŵp Gweithredu - Tîm y GIG yn darparu diweddariadau rheolaidd ar y gweithgarwch Datblygu Arweinyddiaeth yn unol â chynllun gweithredu grŵp y prosiect.

Adroddiadau a Phapurau

Mae Tîm y GIG wedi llunio nifer o bapurau ar gyfer Tîm Cyfarwyddwyr Gweithredol y GIG Llywodraeth Cymru, a grwpiau'r Prif Weithredwyr a'r Cyfarwyddwyr Gweithlu, gan gynnwys Datblygu Rhaglenni Arweinyddiaeth y GIG, Arweinyddiaeth Glinigol, Talent a Rheoli Olyniaeth ac Addysg Gofal Iechyd ledled Cymru, a oedd yn cynnwys Dysgu Gwell gyda Thechnoleg ar gyfer strategaeth GIG Cymru.

"Always engaging and challenging, promoted thinking and some re-focusing"

*Senior Leadership Experience,
March 2014*

Gwelliant Parhaus a Newid



Pwrpas Strategol

Gweledigaeth strategol y tîm Gwelliant Parhaus a Newid yw creu gwerdd craidd o 'welliant parhaus' ymhlith arweinwyr ac ymarferwyr sy'n gallu trawsnewid gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Ein cenhadaeth yw creu capasiti a gallu 'gwelliant parhaus' ledled y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru drwy gefnogi rhwydweithiau a rhoi lle i feithrin a datblygu sgiliau.

Gweithgareddau Allweddol

Ymgysylltu â Chwsmeriaid - Tystiolaeth gadarn i ddangos effaith ein digwyddiadau hyfforddi Gwelliant Parhaus a'r gweithdai 'gwella effeithlonrwydd', gan gynnwys ein gwaith yng Nghyngor Sir Gaerfyrddin, Cyngor Sir Castell-nedd Port Talbot, y

Gwasanaeth Tân ac Achub, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, CAFCASS, yr Heddlu, Cyngor Sir y Fflint, yr Adran Addysg a Sgiliau a'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni - Ynni a'r Amgylchedd.

Cymuned Gwelliant Parhaus Cymru (CGPC) - Ymhlith y datblygiadau calonogol mae symud tuag at grŵp llywio 'craidd' strategol (gan gynnwys cytundeb ffurfiol ar strwythur) gyda chymorth cyfraniad yr Athro Nick Rich (Athro Rheoli Gweithrediadau a Phennaeth Rheoli Adnoddau Dynol ac Astudiaethau Sefydliadol Ysgol Reolaeth Prifysgol Abertawe). Ymwneud â gweithgor Marchnata Strategol CGPC.

Rhannu Profiadau – Wedi cwblhau dull tair ffordd o rannu gwybodaeth a dulliau gweithredu gyda'n cydweithwyr yn Llywodraethau'r Alban a Gogledd

Iwerddon.

Gwobrau GIG ABM - Wedi cyfrannu at Wobrau Cadeirydd y GIG ABM fel aelod o'r panel beirniaid.

Y Sefydliad ar gyfer Gwelliant Parhaus mewn Gwasanaethau Cyhoeddus (ICiPS)

– Wedi cyfrannu at ddatblygiad strategol y Sefydliad, gan gynnwys helpu i gynllunio model 'asesiad strategol' newydd (gr8) sydd ar gael nawr fel cynnyrch ICiPS safonol. Hybu ymwybyddiaeth ledled Sector Cyhoeddus Cymru. Wedi cyfrannu at y Gynhadledd Flynyddol gyntaf ac Wythnos Gwelliant Parhaus ICiPS (gydag ymweliad i'r Bathdy Brenhinol). Un ar ddeg o aelodau staff Llywodraeth Cymru wedi cofrestru eu haelodaeth o ICiPS yn awr.

Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus – Mewnbyn allweddol i bapur y Pwyllgor hwn ar Ddiwygio Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cynhyrchion Hyfforddi Gwelliant Parhaus (GP). Mae'r casgliad llawn o gynhyrchion hyfforddi newydd yn cynnwys tair adran:

- Mae'r **Rhagolwg Gwelliant Parhaus** yn weithdy hanner diwrnod sy'n esbonio GP a'i nod yw helpu gyda sicrhau dealltwriaeth well o'r manteision sydd i'w cael o ddefnyddio methodoleg GP fel rhan o ddull 'system gyfan' o weithredu er mwyn galluogi gwelliant ac arloesi effeithlon. Mae'n dangos y rhesymeg sy'n sail i egwyddorion GP gan ddefnyddio enghreifftiau, gan ganolbwyntio ar sut

"It was an excellent conference – one of the best I have attended and well worth the trip. I came away with some excellent contacts and fresh ideas."
CI Annual Conference, Sept 2013

mae cael gwared ar 'wastraff' a goresgyn y rhwystrau sy'n atal gweithredu gwelliant parhaus yn effeithiol. Rhoddir sylw hefyd i oblygiadau ehangach gweithredu GP, ynghyd â'r heriau cysylltiedig â gwneud hynny.

- Mae **Noddwr GP** yn weithdy undydd rhyngweithiol a'i nod yw cyflwyno crynodeb i uwch swyddogion dylanwadol/sy'n gwneud penderfyniadau mewn sefydliadau o ddulliau, adnoddau a thechnegau gwelliant parhaus. Ceir ffocws ar ddiffinio disgwyliadau, swyddogaethau a chyfrifoldebau uwch swyddogion sy'n gwneud penderfyniadau wrth sicrhau gwelliant parhaus llwyddiannus.

- Mae **Ymarferwr GP** yn rhaglen gwelliant parhaus ar lefel uwch ac yn gwrs 6 diwrnod dwys. Mae'n manylu ar ddulliau, adnoddau a thechnegau gwelliant parhaus. Fel rhan o'r cwrs, mae'r rhaglen Ymarferwr yn meithrin sgiliau'r cyfranogwyr i gyflwyno prosiect gwelliant yn eu gweithle.

Data Allweddol

- ◆ Rhestr Ddosbarthu i ddosbarthu gwybodaeth, manylion, arferion gorau a digwyddiadau GP: 190
- ◆ Sianel Ddysgu: defnyddwyr grŵp CGPC: 101
- ◆ Aelodau grŵp Linked-in CGPC: 129
- ◆ Aelodau grŵp llywio CGPC: 126
- ◆ Digwyddiadau CGPC: 508
- ◆ Cynrychiolwyr yn y gweithdy Noddwr GP: 20
- ◆ Cynrychiolwyr ar y rhaglen Ymarferwr GP: 94
- ◆ Cynrychiolwyr yn y gweithdy Rhagolwg GP: 36
- ◆ Yn bresennol yn y digwyddiadau i greu mwy o ymwybyddiaeth o GP ac i edrych ar ffyrdd o ddarparu cefnogaeth/rhwydweithio: 505
- ◆ Yn bresennol yn y Gweithdy Cwmpasu (i gwmpasu a chytuno ar waith GP penodol i gael ei wneud): 91
- ◆ Yn bresennol yn y Gweithdy Effeithlonrwydd (dilyniant i'r gweithdy cwmpasu a bydd yn cynnwys yr holl randdeiliaid sydd wedi'u datgan i weithio drwy

brosesau a datgan cyfleoedd gwelliant): 100


- ◆ Cynrychiolwyr ar y Rhaglen Ddysgu: 51

Gwaith Datblygu Allweddol

- ◆ Her Uwch Reoli – datblygu menter systematig i helpu i gyflawni yn erbyn anghenion effeithlonrwydd sefydliadol blaenoriaeth uchel. Hefyd bydd y fenter yn cynnwys mecanwaith ‘bancio amser’.
- ◆ Ymgysylltu Sefydliadol – Edrych ar ffyrdd o gynyddu ‘cynhyrchu syniadau’ fel bod sefydliadau'n gallu manteisio ar arloesi o'r newydd.
- ◆ Y Sector Gwirfoddol – Ymrwymiad i gefnogi digwyddiadau gweithdy arfaethedig WCVA a Chymdeithas Ponthafren.
- ◆ Cyngor Sir Bro Morgannwg – rhaglen o weithdai wedi cael ei llunio'n derfynol ar gyfer ei chyflwyno yn y dyfodol.


“I thoroughly enjoyed the Preview [which] has refreshed my knowledge about continuous improvement tools. It has made me think of other options and made me realise the impact of a process in one area on another. Thank you.”

Cyfanswm y Digwyddiadau Gwelliant Parhaus yn ôl Sector



Ffigur 4

Cynhadledd GP a Newid yn ôl Sector



Ffigur 5

Cydnabyddiaeth a Chyflawniadau

Mae ein cynnydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn gynhyrchion ac wedi dwyn ffrwyth. Gyda ffocws parhaus ar lais hollbwysig y cwsmer, ac yn unol â Chymuned Gwelliant Parhaus Cymru, rydym wedi datblygu cynhyrchion newydd effeithiol a dulliau gweithredu arloesol ychwanegol. Mae'r dulliau hyn yn ceisio rhoi sylw i 'anghenion busnes' a darparu atebion 'addas i bwrpas' wrth i ni barhau i helpu'r sector cyhoeddus ar ei siwrnai Gwelliant Parhaus. Hefyd, rydym wedi elwa o gael dealltwriaeth well o'r esblygiad ledled y DU ym maes Gwelliant Parhaus. Mae gennym bresenoldeb a dylanwad cynyddol yn y maes wrth i ni barhau i ddysgu oddi wrth yr agenda Gwelliant Parhaus a chyfrannu tuag ati.

- ◆ Gwobr Llywodraeth Cymru – Enillwyd ar gyfer prosiect trawsnewid proses 'ledled Cymru' CAFCASS.
- ◆ Gwobr Genedlaethol ICiPS– fel uchod.
- ◆ Cyngor Sir Gaerfyrddin - Cyhoeddwyd astudiaeth achos gan Gyngor Sir Gaerfyrddin yn tynnu sylw at y gwelliannau i'w broses 'Prydau Ysgol Am Ddim'.
- ◆ Cynhadledd Gwelliant Parhaus

Flynyddol Cymru – Digwyddiad a gafodd groeso brwd gan ddenu 170 o bobl, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

- ◆ Achrediad ICiPS. Deunydd hyfforddi wedi'i gynllunio o'r newydd wedi cael ei asesu'n ffurfiol ac yn llwyddiannus gan ICiPS.
- ◆ Cymrodoriaeth ICiPS. Aelod o staff Academi Wales oedd y cyntaf yn y DU i gael cydnabyddiaeth cymrodoriaeth gan ICiPS.



Datblygu Seiliedig ar Broffesiynau

HRCymru

Rhwydwaith Adnoddau Dynol (AD) y Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru
Public Service Human Resource (HR) Network in Wales

www.hrcymru.info

Pwrpas Strategol

Rheolir y rhaglenni a'r cynhyrchion Datblygu Seiliedig ar Broffesiynau drwy Dîm Cyflawni Academi Wales. Pwrpas strategol yr elfen hon o'r gwaith yw datblygu grwpiau arweinyddiaeth proffesiynol, cymunedau proffesiynol a rhaglenni arbenigol i alluogi rhannu adnoddau, sgiliau, arbenigedd a dysgu ymhlith grwpiau proffesiynol. Y proffesiwn Adnoddau Dynol (AD) sydd wedi bod yn ffocws allweddol y gwaith hwn hyd yma ond rydym yn chwilio am gyfleoedd i weithio'n agosach â meysydd proffesiynol eraill. Rydym hefyd wedi cyflwyno rhaglen allweddol ar gyfer meithrin gallu Llywodraethu ledled y gwasanaethau cyhoeddus, a byddwn yn ystyried cyfleoedd i ddatblygu'r gallu craffu ymhellach yn y dyfodol.

Digwyddiad arweinwyr Adnoddau Dynol (AD) Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Cynhaliwyd y 3ydd Digwyddiad Arweinwyr AD blynyddol ar 5 a 6 Mawrth 2014. Y thema eleni oedd 'Wynebu'r her

gyda'n gilydd – tirlun y gwasanaethau cyhoeddus yn newid yng Nghymru', ac roedd presenoldeb da yn y digwyddiad, gyda 75 o Gyfarwyddwyr AD yn bresennol o bob rhan o'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Roedd y sesiynau'n cynnwys trafodaeth ar y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus. Cyflwynwyd 4 gweithdy amserol iawn, gan gynnwys; Llywodraethu'r Sector Cyhoeddus; Cydweithredu; Yr Egwyddor Cynnydd; a Sefydliadau Seiliedig ar Werthoedd. Ymhlith y siaradwyr roedd Doug McIlldowie, Cyfarwyddwr Grŵp Adnoddau Dynol GKN plc, a Linda Holbeche, 'Gosod Datblygu Sefydliadol deinamig wrth galon sefydliadau'. Roedd adborth y cynrychiolwyr yn rhagorol, gan gadarnhau eu bod wedi gwerthfawrogi cyfle i wynebu'r heriau gweithlu ac AD gyda'i gilydd.

*"A really beneficial 24 hours – a people focused/centred approach to Leadership and Organisational Change."
HR Leaders Event, March 2014*

HRCymru


Mae defnyddwyr gwefan/porthol HRCymru wedi cael eu harolygu'n ddiweddar a gwnaed gwelliannau i'r safle yng ngoleuni eu hadborth. Mae gennym 579 o ddefnyddwyr cofrestredig, a diddordeb o'r newydd yn dilyn y digwyddiad i Arweinwyr AD. Mae holl bolisiâu AD Llywodraeth Cymru wedi cael eu lanlwytho i'r safle. Hefyd mae holl ddogfennau a chyflwyniadau digwyddiad Arweinwyr AD mis Mawrth ar gael ar y wefan i'w gweld. Mae'r safle'n parhau i ddarparu gofod i weithwyr AD proffesiynol rannu profiadau, sgiliau ac adnoddau ac i helpu i leihau dyblygu er mwyn gwella effeithiolrwydd y proffesiwn

ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru.

Tystysgrif Ôl-raddedig mewn Llywodraethu Gwasanaethau Cyhoeddus

Cyflwynodd Prifysgol y Frenhines Margaret, Caeredin, y rhaglen hon fel yr unig ddarparwr (bryd hynny) yn y DU. Roedd y rhaglen yn cynnwys 4 modiwl deuddydd. Cwblhaodd 16 o fyfyrwyr y dystysgrif gan raddio ar 1 Gorffennaf 2014. Gwerthuswyd pob modiwl a bwriedir gwerthuso lefel 3 yn ystod Haf 2014. Wedi hynny, bydd opsiynau tymor hwy ar gyfer hyfforddiant llywodraethu a chraffu'n cael eu hystyried.

Presenoldeb mewn Digwyddiadau i Arweinwyr AD yn ôl Sector



Ffigur 6

Cyfathrebu, Llywodraethu a Chyllid

Gwefan Academi Wales

Mae gwefan Academi Wales wedi gwella'n fawr ers lansio AW a throsglwyddo cynnwys y wefan o wefan flaenorol PSMW Ascend. Rydym wedi gofyn am adborth a barn defnyddwyr drwy arolygon ac adborth anffurfiol ac wedi gwneud gwelliannau rheolaidd. Mae hynny wedi arwain yn awr at safle mwy defnyddiwr-gyfeillgar a mwy atyniadol yn weledol. Mae hefyd yn gyflymach ac yn fwy uniongyrchol, gyda'r nod o helpu ein cwsmeriaid i ddod o hyd i'r holl wybodaeth y mae arnynt ei hangen am gynhyrchion a gweithgareddau AW. Cytunwyd ar Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda datblygwr presennol y wefan i sicrhau bod y wefan ar gael ac yn gweithio'n iawn, fel bod ein defnyddwyr yn gallu cael hyd i'r hyn maent ei eisiau pan maent ei eisiau. Mae cynlluniau yn eu lle ar gyfer gwneud defnydd optimwm o'r

safle ac mae strategaeth ddigidol yn cael ei datblygu i ddatgan datrysiadau digidol tymor hir ar gyfer Academi Wales.

Sianel Ddysgu Academi Wales

Mae'r wefan Sianel Ddysgu sydd wedi ennill gwobrau yn rhoi cyfle i chi ddefnyddio e-ddysgu, fideos, gweddarllediadau, podlediadau ac adnoddau eraill i hybu eich datblygiad proffesiynol. Rydyn ni'n rhoi cyfleoedd datblygu arloesol i arweinwyr a rheolwyr y gwasanaeth cyhoeddus. Rydyn ni'n gwneud hyn drwy rannu syniadau a meithrin gallu, cynhwysedd a chydweithrediad er mwyn darparu'r gwasanaethau cyhoeddus gorau i Gymru.

SkillPort

Mae SkillPort yn gynnyrch cyffrous byd-eang sy'n cynnig ystod eang o fân fodiwlau dysgu ar arweinyddiaeth, newid

Academi Wales: Great leadership through learning

Hot topic
Apply now for the Leadership Bursary Programme
Applications deadline: 4 July 2014

Find a course

Manage your career

Access online learning

Explore Academi Wales

Take our short pulse check survey

Welcome

Subscribe to the Opportunities Bulletin

Latest updates

a gwella gwasanaethau. Ei nod yw eich helpu chi i ddatblygu eich dealltwriaeth o arweinyddiaeth a newid a bod yn fwy effeithiol.

Gallwch chi wyllo fideos, cymryd rhan mewn sefyllfaoedd rhyngweithiol, lawrlwytho podlediadau i'ch iPod ac archebu crynodebau o lyfrau i'ch Kindle. Mae'r adran Mantais Arweinyddiaeth yn rhoi sesiynau allweddol i chi gydag arbenigwyr ac arweinwyr meddwl fel Lynda Gratton, Patrick Lencioni a John Kotter. Gwyliwch weddarllodiadau byw a rhai sydd wedi'u recordio lle gallwch chi ofyn cwestiynau i arbenigwyr rhyngwladol.

Bwletin Academi Wales

Ymatebwyd i'r adborth a rhoddwyd egni newydd yn y bwletin mewn fformat ar-lein a thrwy ddiweddariadau cynllunio parhaus, adborth ac ailadrodd, crëwyd fformat presennol y bwletin. Rydym wedi defnyddio'r bwletin i hybu amrywiaeth eang o ddigwyddiadau, cyrsiau, swyddi, secondiadau a gwasanaethau eraill - gan gynnwys arolygu defnyddwyr ar effeithiolrwydd cyffredinol gwasanaethau ar-lein Academi Wales. Ar sail canlyniadau'r arolygon hyn, gwnaed gwelliannau i'r bwletin. O fis Awst ymlaen - e-bost uchafbwyntiau newydd wedi'i greu, yn gwbl ddwyieithog. O fis Rhagfyr ymlaen - hafan gwefan Academi Wales

wedi'i hailgynllunio, ei phrofi a'i lansio ym mis Ionawr.

Gweithgareddau Llywodraethu Corfforedig

Cwblhawyd yr archwiliad ar y dogfennau iechyd a diogelwch yn barod ar gyfer asesiad OHSAS 180001, a rhoddwyd camau gweithredu ar waith er mwyn sicrhau bod archwiliadau ac asesiadau risg priodol yn cael eu cynnal ar gyfer gyrru yn y gwaith, gweithio gartref, gweithio ar eich pen eich hun ac ati. Cyflwyno rhaglen barhaus o asesiadau Cyfarpar Sgrin Arddangos ar gyfer aelodau'r tîm. Nifer yr Aseswyr CSA wedi cynyddu o 1 i 3 yn y tîm. Dau warden tân newydd wedi'u penodi. 1 swyddog cymorth cyntaf newydd wedi'i benodi. Asesu ac ymateb i ymgynghoriad ar Safonau'r Gymraeg.

Gwerthuso

Mae rhaglenni Academi Wales yn cael adborth rhagorol, o ran sgoriau a sylwadau. Y sgôr gwerthuso a roddir i gynhyrchion Academi Wales ar gyfartaledd ydi 97%.

Gweithgarwch Caffael

Cynhaliwyd 12 ymarfer caffael Gwahoddiad i gyflwyno dyfynbris ar gyfer gwasanaethau gwerth tua £270,000

Cynhaliwyd 2 ymarfer caffael Gwahoddiad i gyflwyno tendr ar gyfer gwasanaethau gwerth tua £400,000

6 chais ymadael wedi'u cwblhau a'u cymeradwyo

Rheolaeth Ariannol

Cyllideb rhaglenni Academi Wales ar gyfer 2013/14 oedd £1.615m.


Cododd ymarferion cynhyrchu refeniw yr Ysgolion Haf a Gaeaf a Hyfforddiant ILM7 £70,950, gan alluogi Academi Wales i gyflwyno oddi mewn i'r gyllideb sydd ar gael.

Yn seiliedig ar gyfanswm y gyllideb o £1.615m, a chyfanswm o 7,592 o

gynrychiolwyr yn mynychu 11,511 o ddyddiau hyfforddi, mae'r costau ar gyfartaledd yn cyfateb i £212 y cynadleddwr a £140 y diwrnod hyfforddi.



Siart Lleoliadau Cyflwyno ar gyfer holl Raglenni Wedi'u Trefnu Academi Wales



Figur 7


Data Cynrychiolwyr

Cynulleidfa darged Rhaglenni Academi Wales yw gweision cyhoeddus ar bob lefel ac mae'r gweision hyn yn eu mynychu ym mhob cam o'u gyrfaedd arweinyddiaeth.

Ffigur 8 – ar gyfer pob 1 Prif Weithredwr/Uwch Reolwr, mae 2 Reolwr

Canol/Ymarferwr yn defnyddio rhaglenni AW, a 9 o bobl yn defnyddio rhaglenni sy'n agored i bob lefel a gradd.

Mae hyn yn ychwanegol at y lluo weithgareddau datblygu eraill sy'n agored i bobl, gan gynnwys mynediad i'r Sianel Ddysgu a Skillport.



Ffigur 8

Cynulleidfa darged	Nifer y rhaglenni ar wahân	Cyfanswm y Cynrychiolwyr	Cyfanswm y Dyddiau Hyfforddi	Cymhareb
Prif Weithredwr/ Cyfarwyddwr/ Uwch Reolwr	19	668	2,032	1
Rheolwr Canol/ Ymarferwr	15	1,199	4,820	2
Agored i bob lefel	18	5,725	4,659	9
Cyfansymiau	52	7,592	11,511	

Data Ymgysylltu

Cyfrwng Cyfathrebu	Dwysedd
Cronfa ddata	8,000
Bulletin 09/13	5,000
Bulletin 03/14	3705 (this figure is lower but more representative and includes more than 200 organic subscribers)
LinkedIn 03/14	Aelodau: 236

Gwefan Academi Wales

Dyddiadau	Ymweliadau	Ymwelwyr unigryw:	Edrych ar dudalennau	Ffynhonnell y defnydd (%)			Dyfais (%)		
				Uniongyrchol	Organig (peiriant chwilio)	Organig (peiriant chwilio)	Bwrdd Gwaith	Symudol	Tabled
Medi 2012 – Mawrth 2013	9,111	5,672	41,470	60	21	19	94	3	3
Ebrill 2013 – Medi 2013	20,937	12,164	106,760	48	25	27	91	4.5	4.5
Hyd 2013 – Mawrth 2014	28,000	16,580	124,794	42	33	25	88	6	6
Cyfanswm	58,048	31,214	273,024						

Twitter

Dyddiadau	Negeseuon Trydar	Yn dilyn	Dilynwyr
Gorff 2013	708	458	549
Gorff 2013 – Mawrth 2014	753	210	468
Cyfanswm	1,461	668	1,017

YouTube

Dyddiadau	Ychwanegu fideo	Nifer wedi gwyllo	Munudau'n gwyllo*	Tanysgrifwyr newydd	Hoffi	Rhannu
Gorff 2012 - Gorff 2013	8	516	1,976	6	2	5
Gorff 2013 - Mawrth 2014	38	5,213	47,377	24	2	14
Cyfanswm	46	5,729	49,410	40	4	19

*ar gael o 1 Medi 2012

AcademiWales



Academi Wales

Adroddiad Blynyddol

2013-14

www.academiwales.org.uk

academiwales@wales.gsi.gov.uk

@academiwales